

Mai 2014

Annwyl riant/warcheidwad

Newyddlen Tymor yr Haf 2014

Dyddiadau i'r dyddiadur

05/05/14 - Gŵyl y Banc

- **07 – 13/05/14** – Profion Cenedlaethol Darllen a Rhif Blwyddyn 2 – 6
- **06;07;09/05/14** – Ms Evelyn Parry yn cyfarfod rhieni plant y dosbarth meithrin
- **12-14/05/14** – Taith 3 diwrnod **Blwyddyn 6** i Gaerdydd
- **14/05/14** - Twrnamaint Rownderi i ddisgyblion Blwyddyn 5
- **20/05/14** –
 - **PWYSIG! Trefn Dosbarthiadau Newydd y Cyfnod Sylfaen – Staff yr ysgol yn cyfarfod rhieni disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Dos. Meithrin; Derbyn a Blwyddyn 1 eleni yn unig) – 6.00yh yn y neuadd.**
 - Cyfarfod Cyfeillion yr Ysgol yn syth ar ôl y cyfarfod uchod am 7 o'r gloch.

26/05/14 – 30/05/14 – Gwyliau hanner tymor

- **02/06/14** – **Tynnu lluniau dosbarthiadau** – Gwynant Parri.
- **03/6/14** – Chwaraeon Dalgylch (Pêl-droed a Phêl-rwyd) i ddisgyblion **B1 3/4**
- **04/06/14** - Disgyblion **Blwyddyn 6** yn ymweld ag Ysgol Glan y Môr drwy'r dydd - gweithdai
- **05/06/14** – PC John yn dod i roi cyflwyniad am chwarae'n ddiogel, ysmegu a chyffuriau i blant yr ysgol.
- **09 – 11/06/14** – Taith Antur 3 diwrnod **Blwyddyn 5** i Wersyll yr Urdd, Glanllyn.
- **10/06/14** - Chwaraeon Dalgylch (Pêl-droed a Phêl-rwyd) i ddisgyblion **B1 5/6**
- **13/06/14** – Nia Williams yn cynnal y gwasanaeth wythnosol i'r plant.
- **10/06/14** – Mabolgampau Dalgylch i ddisgyblion **B1 5/6**
- **20/06/14** – Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Pentreuchaf (dyddiad newydd!)
- **24/06/14** – Mabolgampau Dalgylch i ddisgyblion **B1 3/4**
- **01/07/14** - **Diwrnod Agored i rieni**
- **03/07/14** - Noson rieni Ysgol Glan y Môr i **rieni disgyblion Blwyddyn 6**.
- **04/07/14** - Diwrnod Cartrefu disgyblion **Blwyddyn 6** yn Ysgol Glan y Môr! Dosbarth Meithrin yn aros am ginio!
- **04/07/14** - Bore goffi'r **Cylch Meithrin** a chyfle i'r ysgol groesawu a sgwrsio gyda **rhieni newydd!**
- **04/07/14** – **GŴYL HIRDDYDD HAF PENTREUCHAF**
- **07/07/14** – Cyfarfod llawn Corff Llywodraethu'r ysgol
- **08/07/14** - **Diwrnod Mabolgampau'r ysgol** (os yw'r tywydd yn caniatáu wrth gwrs!)
- **??/??/??** – Taith Dosbarth Meithrin
- **??/??/??** – Taith Cyfnod Sylfaen
- **??/??/??** – Taith Blwyddyn 3/4

18/07/14 – Ysgol yn cau am wyliau!

Cofiwch edrych am fwy o ddyddiadau pwysig mewn llythyrau ac ar ddyddiadur gwefan yr ysgol!

Gwisg ysgol / Hwdis / Dillad Addysg Gorfforol

Bydd Mrs Sioned Roberts-Williams yn cysylltu â chi'n fuan er mwyn casglu archebion gwisg ysgol, hwdis a dillad addysg gorfforol ar gyfer mis Medi 2014.

Ffoniwch Mrs Sioned Roberts-Williams am fanylion.

Gofalwch fod enw eich plentyn/plant ar bob darn o ddilledyn!

Oriau gweithio Sioned Roberts-Williams, Swyddog Gweinyddol.

Os ydych yn dymuno trafod materion gweinyddol megis arian cinio, llefrith, arian teithiau addysgol, a fuasech cystal a chysylltu gyda Anti Sioned os gwelwch yn dda.

Llun: 9.00 – 11.00

Mawrth: 9.00 -11.00

Gwener : 9.00 – 15.30

Dŵr



Canrha yr ysgol yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Gwynedd a Môn, rydym yn annog y plant i yfed dŵr yn ystod y dydd. Mae gennym ffynnon ddŵr bwrpasol wrth y brif fynedfa ar gyfer y disgyblion. Gofynnwn yn garedig i chi ein cynorthwyo drwy beidio â rhoi 'squash', sudd na diod ffisiol ym mhotel dŵr eich plentyn os gwelwch yn dda? (Poteli i fynd adref ar ddydd Gwener i'w golchi)

<http://inspiredhealthandhappinessblog.com/2012/01/5-tips-for-children-increase-mental-focus-attention-energy-capacity-part-ii/>

Teganau

Mae'r ysgol yn croesawu ac yn annog y disgyblion i ddod ag adnoddau sy'n gysyllfiedig â thema'r dosbarth yn unig.

Trefniadau mynd adra

Os oes unrhyw newid yn nhrefniadau mynd adra eich plentyn, a fuasech cystal a hysbysu'r ysgol drwy lythyr, ebost, neu ffonio'r ysgol cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

ABSENOLDEB O ACHOS SALWCH

Fel arfer bydd pobl yn gwella'n llwyr o symptomau dolur rhydd a chwydu o fewn ychydig ddyddiau. Ond, gall fod yn fwy difrifol i blant sy'n agored i niwed felly arhoswch tan o leiaf 48 awr ar ôl i'ch symptomau orffen cyn dychwelyd i'r ysgol.

Gweler Cyfarwyddyd ar Reoli Heintiau mewn Ysgolion Gwynedd ar:
<http://ysgolpentreuchaf.org/downloads/200114-cyfarwyddyd-ar-reoli-heintiau.pdf>

“Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd”

Ysgol Pentreuchaf

(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.
Ffôn/Tel – 01758 750 600 / 07584613603
ebost/email - : pennaeth@ysgolpentreuchaf.org
Gwefan/web: www.ysgolpentreuchaf.org



Präsennoldeb a phrydlondeb

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn gstyried präsennoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn – er mwyn i'ch plentyn/plant fantasio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig bod y plant gma'n rhölaidd erbyn 8.55 er mwyn egehwn ar ddiwrnod egffrous arall yn brydlon am 9.00!

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn säl neu'n mëthu dod i'r ysgol am räsymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, **a fuasech cystal a ffonio'r ysgol os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae eich plentyn/plant yn dychwelyd.**

YR YSGOL SYDD A CHYFRIFOLDEB DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.50yb YMLAEN



Adran ddiogel Gwefan Ysgol
www.ysgolpentreuchaf.org

Er mwyn gweld llythyrau, lluniau a'r wal fideo, mae'n rhaid rieni ddefnyddio cyfrinair arbennig er mwyn cael mynediad:-

Cysylltwch am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda



Dilynwch ni ar [@ysgolpentre](https://twitter.com/ysgolpentre) neu
ar dudalen cartref ysgolpentreuchaf.org
Yma cewch weld Sër yr Wythnos, lluniau a'r diweddaraf o Ysgol Pentre'!

Siöp Ffrwythau

£1 yr wythnos (i'w dalu ar ddydd Llun os gwelwch yn dda)



Negeseuon Testun

Yn ein hymdrech i arbed arian (a choed!) byddwn yn anfon negeseuon testun. Felly, os nad ydych wedi derbyn negeseuon gan 'ysgolpentre' hyd yma, a fuasech cystal a rhoi gwybod i ni beth yw eich rhif ffôn symudol cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda.

Arian mewn amlen

Gofynnwn yn garedig i chi roi unrhyw arian mewn amlenni ar wahân a nodi arno beth rydych yn ei dalu, enw eich plentyn a'i ddsbarth.

Diolch yn fawr!

Yn gywir

Gethin E Thomas

"Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd"